




Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Nodi'r Cysylltiadau rhan 2

Adroddiad ar Arolwg o Weithwyr Tai Proffesiynol mewn
Llywodraeth Leol



Cyflwyniad


Yr adroddiad hwn yw'r ail mewn cyfres sy'n adlewyrchu barn staff yn adrannau tai awdurdodau lleol ar draws Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf yng Ngwanwyn 2020, yn dilyn ymchwiliad a gyflawnwyd ym mis Chwefror 2020. Dros y misoedd i ddod dechreuodd argyfwng y Coronafeirws (COVID-19), sydd wedi ysgogi newidiadau anferth yn y ffordd y mae pobl yn byw ac yn gweithio ar draws y byd, nid lleiaf y rhai sy'n gweithio ym maes tai. Mae hyn wedi rhoi cyfle unigryw i ni fynd yn ôl i weithwyr tai proffesiynol i ddeall yr effaith ar eu bywydau gwaith, eu blaenoriaethau a'r hyn y maent yn eu hystyried fel blaenoriaethau'r dyfodol.

Mae'r cyfnod ers dechrau'r pandemig wedi dangos pa mor gyflym y gall gwasanaethau newid mewn ffordd radicalaidd i helpu pobl i ddod o hyd i lety, cadw mewn cysylltiad â'u rhwydweithiau teulu/cymunedol a chadw'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eu cartrefi.

Wrth wraidd llawer o'r gweithgarwch hwn oedd y staff a leolir yn adrannau tai awdurdodau lleol. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn gweithio ar draws amrywiaeth o rolau gan gynnwys: cyngor ar dai, atal digartrefedd, ymgysylltu â landlordiaid preifat, strategaeth a chynllunio tai. Maent yn sicrhau bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel nawr a bod cymunedau'n cael eu datblygu a fydd yn gweithio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

O ystyried natur hanfodol y gwasanaethau a ddarperir trwy'r rolau hyn, mae'n agor trafodaethau i fyny ynghylch sut y gellir cefnogi staff i weithio'n hyblyg, goresgyn rhwystrau yn eu gwaith bob dydd a'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn blaenoriaethu tai.


Cyflawnwyd ein hail arolwg rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2020 a bu i ni dderbyn 52 o ymatebion (yr un nifer â'r arolwg cyntaf). Roedd yr ymatebion i gyd yn ddienw ac rydym wedi cynnwys rhai dyfyniadau lle y teimlwn eu bod yn helpu i amlygu'r naratif.



Crynodeb Gweithredol


Arweinyddiaeth o dan bwysau

- I rai gweithwyr proffesiynol, mae'r pandemig wedi golygu mynd yn arweinwyr dros nos, gan oruchwylio newidiadau cyflym i sut mae gwasanaethau'n symud i gael eu cyflwyno'n ddigidol.
- Er gwaethaf cynnydd cadarnhaol, teimlodd staff yn gryf eu bod o dan bwysau o ganlyniad i COVID-19 osod gofynion ychwanegol ar ben swyddi bob dydd a oedd eisoes yn brysur - teimlodd ymatebwyr fod hyn wedi'i waethgu ymhellach gan ddiffyg cyffredinol o ran staff a thai fforddiadwy.
- Helpu eraill a gweithio fel rhan o dîm yw'r prif ysgogiadau y tu ôl i foddhad yn y swydd ar gyfer gweithwyr tai proffesiynol awdurdodau lleol. Mae'n ddiddorol mai ychydig iawn o ddylanwad sydd gan gyfleoedd gyrfa ar hyn o beth, gan awgrymu naill bod y dymuniad i symud ymlaen yn uchel ymysg ymatebwyr, neu fod y cyfleoedd ymarferol i wneud hynny yn gyfyngedig.
- Teimlodd ymatebwyr y byddai mwy o staff, yn ogystal â mwy o adnoddau a thai fforddiadwy ychwanegol, yn lleddfu pwysau. Mae'n ddiddorol y bu rhywfaint o dystiolaeth a nododd y byddai lliniaru pwysau/terfynau amser Llywodraeth Cymru'n helpu staff hefyd.
- Teimlodd staff yn gryf fod angen symud ymlaen gyda'r gwersi a ddysgwyd o fedru gweithio o gartref a gweithio'n hyblyg - er iddynt gael eu gwrthbwysu gan ddymuniad i sicrhau yr ystyrir unigedd staff yn y cyd-destun hwn.
- O safbwynt sefydliadol, roedd rhywfaint o gefnogaeth dros baratoi'n well ar gyfer rheoli argyfyngau a'r angen am ystyried sut y gallai TG greu arbedion trwy ostwng y teithio sydd ei angen i fynychu cyfarfodydd.
- Teimlodd dros draean o ymatebwyr fod angen cefnogaeth arnynt gyda'u hiechyd meddwl yn ystod y pandemig - yn bennaf o ganlyniad i bwysau gwaith a newidiadau i'w hamgylchedd gweithio. Er bod llawer yn teimlo iddynt gael eu cefnogi gan eu hawdurdod lleol, dwedodd pobl wrthynt eu bod wedi profi heriau gan gynnwys unigedd a chydbwysu gwaith a gofal plant.
- Gan sicrhau y gallai pawb Aros Gartref o safbwynt gweithredol, ystyriwyd bod y camau a gymerwyd i ddarparu llety i bobl sy'n cysgu allan ac i ddarparu cefnogaeth i denantiaid agored i niwed yn llwyddiant. Mewn perthynas â hyn, gwelwyd bod cydweithio â thimau ac â sefydliadau allanol yn rhywbeth cadarnhaol.
- Teimlodd 19% o weithwyr proffesiynol yr ymatebodd eu hawdurdodau lleol yn dda i alluogi i staff weithio o gartref.
- Amlygodd bron 80% o ymatebwyr yr angen am fwy o dir ac adnoddau er mwyn i awdurdodau lleol gyrraedd targedau i gyflwyno tai mwy fforddiadwy, gan awgrymu y bydd angen i fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol fod yn ffocws.
- Mae'r adroddiad hwn yn dangos darlun cymysg o ran rhoi cartrefi i bobl a leolwyd mewn llety dros dro o ganlyniad i ymdrechion a wnaed i ddiogelu pobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig. Adroddodd ychydig yn fwy o ymatebwyr iddynt deimlo'n hyderus neu'n eithaf hyderus yng ngallu eu hawdurdodau i ddod o hyd i ddatrysiadau tai fforddiadwy.



Beth ydych chi'n hoffi mwyaf am eich swydd?

Bu i ni ofyn i weithwyr tai proffesiynol am eu cymhelliad yn y gwaith ac fe ddwedon nhw wrthym am eu hymroddiad i weithio gyda chymunedau a chefnogi pobl eraill. Mae'r lefel isel o ymatebion (3%) mewn perthynas â chynnydd gyrfaf'n faes a allai elwa o sylw pellach.



Effaith COVID-19 ar arferion gweithio

Newidiadau mewn rolau

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn yr un rolau y buont ynddynt ar ddechrau 2020 ond ddwedodd tua thraean ohonynt wrthym fod ffocws eu rôl wedi newid, yn aml gan gynnwys pwyslais ar arweinyddiaeth a chymryd cyfrifoldebau newydd ymlaen.

"Mae'r hyn rydym yn ei reoli'n newid - mae cleientiaid yn cyflwyno gyda phroblemau newydd, ar gyfradd lower cyflymach."


"Cynnwys tai fforddiadwy ac arbenigol, datblygu gwasanaeth digidol, ffocws strategol yn hytrach na rheng flaen, mynd yn arweinydd tîm."

Ymateb sefydliadol

Mae deall yr hyn a wnaed yn dda yn bwysig o ran gwersi ar gyfer y dyfodol ond hefyd i gydnabod cymhelliad staff i gadw pobl yn ddiogel yn ystod y pandemig.

Amlygodd bron traean (30%) weithgareddau i gefnogi pobl sy'n profi digartrefedd fel un o'r newidiadau allweddol a wnaed yn dda gan eu hawdurdod. At hynny, ystyriwyd bod symud i weithio hyblyg yn newid cadarnhaol gan lawer (19%).

Dwedodd ymatebwyr wrthym am ymdrechion i gynyddu llety dros dro ar gyfer pobl sy'n cysgu allan ac i ddarparu cefnogaeth yn ddiogel. Gwnaed hyn oll yn gyflym iawn, ar yr un pryd â wynebu bygythiad mawr i iechyd y cyhoedd.



Meysydd eraill a amlygwyd oedd awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr iechyd, â'r sector gwirfoddol a gweithio fel tîm ar y gwaith bob dydd ac ar yr un pryd â chyflwyno yn wyneb pwysau newydd ac annisgwyl.

Beth a wnaeth eich ALL yn dda wrth ymateb i COVID19 a'r cyfnod clo?

Symud yn gyflym er mwyn i staff weithio o bell	19
Ehangu llety dros dro	10
Llety i bobl sy'n cysgu allan	9
Gweithio mewn partneriaeth	9
Cefnogi tenants agored i niwed	8
Cyfleuster ar gyfer pobl ddigartref	7
Cyfathrebiadau clir	7
Parhau â'r swydd bob dydd	8
Gweithio fel tîm	7
Cyflwyno ar Gam 2 y grant digartref	4
Ymateb cynnar	4
Gwasanaethau brys ar gyfer ymateb i covid	3

"1. Dod â phobl sy'n cysgu allan oddi ar y strydoedd ar unwaith Dod o hyd i ddarpariaeth amgen ar gyfer yr holl ymgeiswyr nad oes ganddynt flaenoriaeth ar unwaith 3. Tynnu ynghyd gydag asiantaethau eraill e.e. landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i alluogi enwebiadau uniongyrchol ar gyfer eiddo"

"Wedi cwblhau galwadau ffôn lles i'n holl denantiaid, agor cyfleuster i bobl gael mynediad iddo, caniatáu i bobl weithio o gartref"

"Adleoli rhai staff i Dracio ac Olrhain, cefnogi Darparwyr trwy gludo PPE a chynyddu cyfathrebu â nhw er mwyn cynnig cefnogaeth"

"Ailgartrefu pobl sengl ddigartref; helpu i adeiladu'r ysbytai Enfys; ailgysylltu â thenantiaid ar-lein"



Dysgu gwersi i gefnogi adrannau tai

Er y bu rhai cyflawniadau trawiadol amlwg, amlygodd ymatebwyr wersi y dylid eu dysgu am weithredu mewn amodau tebyg. Gellir defnyddio dysgu o weithredu yn ystod y pandemig wrth symud ymlaen.

Ystyriwyd bod symud i weithio o gartref yn gadarnhaol ac yn negyddol ill dau. Teimlodd ymatebwyr fod angen cydbwysu'r defnydd o TG i arbed costau teithio a chostau eraill yn erbyn yr angen am ymdrin ag unigedd staff a chynnal morâl wrth weithio o bell.

Amlygodd ymatebwyr yr angen hefyd am wella agweddau sy'n sail i berthnasoedd gyda chontractwyr allanol e.e. diogelwch COVID-19, rheoli argyfyngau'n well a blaenoriaethu'n well.


"Y wers bwysicaf yw sylweddoli y gellir gwneud y pethau yr ydym bob amser wedi'u gwneud yn wahanol, erbyn hyn rydym wedi gwneud hynny am y 9 mis diwethaf a does dim rheswm dros fynd yn ôl i'r hen ffordd fiwrocraidd o wneud pethau."

"Cydnabyddiaeth bellach bod gweithio o gartref yn ffordd dderbyniol a llwyddiannus o weithio"

"Mae angen hyfforddiant rheoli argyfyngau - cynllunio ar gyfer pandemig yn y dyfodol. Mae angen i ni gadw i fyny â'r technolegau diweddaraf i sicrhau y gellir cyflwyno gwasanaethau. Mae angen ystyried sut y gallwn gael tenantiaid i gyrchu gwasanaethau'n ddigidol"

"Cydnabod na ellir datrys materion digartrefedd gan wasanaethau tai ar eu pennau eu hunain."

"Mae angen ystyried y goblygiadau ar gyfer cydraddoldeb o ganlyniad i newidiadau yn narpariaeth gwasanaethau."





Cefnogi gweithwyr tai proffesiynol i ffynnu

Nodi'r pwysau

Dwedodd cyfranogwyr wrthym am y pwysau y maent oddi tanynt, mae llawer wedi gorfod delio â'u rôl reolaidd gyda chyfrifoldebau ychwanegol oherwydd y pandemig COVID-19. Adroddodd ymatebwyr hefyd fod materion a fu'n bodoli eisoes cyn dechrau'r pandemig (e.e. diffyg tai fforddiadwy a chapasiti staff o fewn timau) wedi cynyddu'r pwysau ymhellach.

Beth yw'r pwysau sydd arnoch chi?



"Dod o hyd i lety fforddiadwy yn y sector preifat, cael darparwyr cefnogaeth i'n cynorthwyo yn ein rôl, diffyg llety brys i'w gynnig i bobl."


"1. Cynyddu'r nifer o unedau llety dros dro (wedi dyblu) 2. Cynyddu'r nifer o ASB o fewn llety dros dro. 3. Anawsterau wrth gael preswylwyr i gydymffurfio ag arweiniad COVID, gan beri risg gynyddol i staff."

"1) Cwrdd ag amserlenni Llywodraeth Cymru sydd yn aml yn afrealistig ar gyfer ymgeisio am grantiau etc 2) Diffyg adnoddau i symud ymlaen ar y cyflymder y mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylem fod yn ehangu ein stoc."

3) Ceisio gwneud fy ngorau heb yr holl offer TG/seilwaith sydd eu hangen"

"Llwyth gwaith llawer uwch a galw uwch am symud cleientiaid i lety parhaol. Oherwydd bod gan y tîm uwch lwyth gwaith trymach mae'n anodd troi iddynt am gefnogaeth felly gall y rôl deimlo'n eithaf unig."


"Mae nifer y bobl sengl ddigartref wedi cynyddu, mae eiddo'n cael ei droi o gwmpas yn arafach, gan greu oedi wrth ddyrannu, disgwyliadau cwsmeriaid."



Goresgyn heriau

Dangosodd yr ymatebion i'r cwestiwn "beth fyddai'n gwneud eich bywyd yn haws?" yn glir y canfyddiad fod angen mwy o staff i gefnogi gwaith, a hefyd mwy o dai ar gyfer darpar denantiaid. Er nad yw ar ben y rhestr, hoffai rhai staff gael mwy o ddilysiad na'r hyn y maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd yn eu rolau gan reolwyr, cydweithwyr a thenantiaid. Ar lefel ymarferol, nododd pobl yr angen am TGCh well, y cyfle i weithio yn y swyddfa a gostyngiad yn y pwysau gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â therfynau amser.

Beth fyddai'n gwneud eich rôl yn haws?




Agwedd ac ymateb sefydliadol

Statws ac adnoddau tai

Roeddem eisiau gwybod i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn ystyried bod tai'n flaenoriaeth. 10% yn unig a gredodd ei fod yn isel, gyda 48% yn ei weld fel blaenoriaeth uchel.


Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn tybio bod gallu eu hawdurdod lleol i gyflwyno cartrefi newydd wedi newid yn ystod 2020 - credodd 46% ei fod wedi gwella a dim ond 17% a awgrymodd ei fod wedi gostwng.

Amlygodd bron 80% o ymatebwyr yr angen am fwy o dir ac adnoddau er mwyn, gan awgrymu y bydd angen i fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol fod yn ffocws er mwyn cyrraedd targedau o ran tai.



"Mwy o staff, tîm cymorth hynod fedrus a all ateb mwy o ymholiadau er mwyn rhyddhau amser Swyddogion Tai."

"1. Sicrwydd cyllid ar ôl Cam 2/3 a chyllideb tair blynedd. 2. Mwy o staff profiadol. 3. Caniatáu darpariaeth lloches nos sy'n ddiogel o ran Covid, medru dychwelyd i'r swyddfa cwpl o ddiwrnodau yr wythnos a gweld cydweithwyr."



Darparu datrysiadau tai cynaliadwy

Adroddodd ymatebwyr iddynt deimlo o dan bwysau i sicrhau y deuir o hyd i ddatrysiadau tai parhaol ar gyfer pobl sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd. Wrth gyflawni hyn yn yr hinsawdd bresennol, mae 61% o ymatebwyr yn hyderus y gall eu hawdurdod lleol gyflawni hyn.

Bu i ni ofyn wedyn pa fesurau ychwanegol y teimlodd staff y mae eu hangen i gartrefu plant yn ddigonol mewn llety dros dro. Amlygodd mwyafrif helaeth o ymatebwyr (yr angen am fwy o gartrefi, o fathau gwahanol, gan gynnwys rhai fforddiadwy, preifat ac argyfwng. O fewn hyn, amlygodd 40% o ymatebwyr angen cynyddol am lety i bobl sengl.


"Mae darparu llety dros dro wedi cael ei gyflawni, ond mae'r her o ddod o hyd i lety symud ymlaen / sefydlog yn nes ymlaen yn debygol o achosi heriau sylweddol"

"Mae angen llety addas ar gyfer pobl sengl sydd ag anghenion cymhleth: camddefnyddio sylweddau, ymddygiad troseddol, problemau iechyd meddwl, ffyrdd cythryblus o fyw, cael eu taflu allan sawl gwaith yn y gorffennol"

"Adnoddau ychwanegol a mwy o gartrefi fforddiadwy/ysgogiadau i landlordiaid preifat ymrwymo. Adolygu lefelau LHA"


Trefniadau cydweithio agos â phartneriaid RSL, Sefydli Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol."

"Mwy o ddarpariaeth Cefnogi Pobl i ddiwallu anghenion y rhai sydd ag anghenion cymhleth, newid agweddau tuag at HMO / llety a rennir a newid yn y lwfans tai, adeiladu mwy o gartrefi"



Gweithio ar draws iechyd a gofal

Gan gydnabod yr angen am sicrhau partneriaethau cryfion rhwng adrannau tai a chyrrff iechyd, bu i ni ofyn am hyder staff yn y partneriaethau rhwng y ddau. Mae gan 61% "rywfaint" o hyder yn y partneriaethau hyn, mae gan 25% "ddim hyder", dwedodd 8% "ddim yn gwybod" ac mae 6% yn "hyderus iawn".



"Nid yw'r gefnogaeth a phartneriaethau cyffredinol gydag iechyd yn wych."

"Mae rhai partneriaethau'n dod allan o'r pandemig."


"Mae disgwyliadau mawr ar y sector tai i gamu i'r adwy ar y funud olaf gyda datrysiad tai i ryddhau o'r ysbyty"

"Bownsio pobl rhwng gwasanaethau."

"Ychydig iawn o bartneriaeth. Mae lechyd yn gofyn am lety ar gyfer cleientiaid na ddylent gael eu rhyddhau heb unrhyw rybudd."

"Perthynas wych ag unigolion ond yn gyffredinol mae'n un o'r rhwystrau mwyaf e.e. bownsio pobl rhwng gwasanaethau."

"Nid oes ganddynt unrhyw gapasiti i gefnogi'r problemau anferth a wynebier gan bobl ddigartref."



Llesiant staff

Cefnogi llesiant staff

Teimlodd traean o ymatebwyr fod angen cefnogaeth arnynt gyda'u hiechyd meddwl. Roedd hyn o ganlyniad i amrywiaeth o resymau ond yn cynnwys pwysau gwaith (41%) a newid yn yr amgylchedd gwaith (26%). Bu i ni ofyn wedyn i bobl a oeddent yn teimlo bod eu hawdurdod lleol yn cefnogi nhw. Roedd y mwyafrif o staff (87%) yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu hawdurdod lleol a'u rheolwr.

Amlygodd y rhai a deimlodd fod angen mwy o gefnogaeth arnynt y materion a ganlyn:

- Staff yn teimlo'n unig, weithio heb gael eu gwerthfawrogi gyda chyfathrebu annigonol â rheolwyr/tîm
- Profi heriau gyda gofal plant ac addysgu cartref wedi'u cyfuno â llwythi gwaith uchel
- Costau ariannol gweithio o gartref


"Diffyg cyfathrebu gan reolwr yn ôl pob tebyg oherwydd y pwysau y mae oddi tanynt yn bersonol. Teimlad bod y sector wedi mynd yn fratiog o ganlyniad i ddiffyg cyfathrebu a rhannu profiadau"

"Siaradodd yr ALL yn dda am flaenoriaethu amser teuluol etc, ond parhaodd y llwyth gwaith i gynyddu. Mae angen cefnogaeth gyffredinol arnaf yn fy rôl gan fy mod yn gwneud y cyfan fy hun, ac ni allaf ymdopi'n dda yn y tymor hir gyda'r gwaith ychwanegol a phwysau'r cyfnod clo a gofal plant!"

"Byddai galwad ffôn nawr ac yn y man i wirio fy mod yn ymdopi wedi bod yn dda"

"Gwell argaeledd cwnsela, pan fydd angen. Cydnabyddiaeth o waith a wnaed gan staff tai a chefnogi gan uwch swyddogion ac aelodau"

"Ni roddwyd unrhyw gydnabyddiaeth gyhoeddus i Dimau Digartrefedd yng Nghymru am gymaint o waith caled a'u cyflawniadau wrth gael bob person digartref mewn llety dros dro yn ystod y pandemig. Mae'n teimlo fel bod Swyddogion Tai/ Digartrefedd wedi cael eu hanghofio."



Beth sydd wedi newid?

Pan wnaethom gyflawni'r arolwg blaenorol o weithwyr tai proffesiynol awdurdodau lleol ym misoedd Ionawr/Chwefror 2020 ni allem fod wedi rhagweld i ba raddau yr oedd bywydau a gwaith ar fin newid.

Yn yr adroddiad hwnnw, gwelsom fod gweithwyr tai proffesiynol wedi'u symbylu gan eu dymuniad i helpu pobl ac maent yn teimlo bod eu hawdurdod lleol yn cydnabod rôl y sector tai wrth greu cymunedau cynaliadwy.

Pan wnaethom ail-wneud yr arolwg i ofyn cwestiynau pellach, roeddem eisiau gwybod i ba raddau yr oedd amgylchiadau wedi newid. Yn yr arolwg cyntaf dwedodd ymatebwyr wrthym fod ganddynt lwythi gwaith trwm yn barod, yr ail waith gwnaethant ddweud wrthym fod eu llwythi gwaith a oedd eisoes yn drwm wedi dwysau oherwydd y pandemig.

Un maes sydd wedi newid yn arwyddocaol yw y nodwyd cyllidebau cyfyngedig gan staff fel yr ail bryder mwyaf (ar ôl llwyth gwaith) ym mis Ionawr. Yn ein hail adroddiad ni nodwyd cyllidebau fel pryder. I'r gwrthwyneb roedd diffyg tai fforddiadwy yn destun pryder allweddol i 8% o ymatebwyr ym mis Ionawr ac roedd hyn wedi cynyddu i 25% erbyn mis Rhagfyr.


Pan holom ymatebwyr am ba heriau y maent yn eu hwynebu a beth fyddai'n gwneud eu rôl yn haws, nid oedd yr atebion i'r arolwg cyntaf a'r ail arolwg wedi newid yn arwyddocaol. Gwnaethant amlygu'r angen am fwy o staff a TGCh well.

Er hynny, mae materion newydd wedi'u hamlygu gan bobl: eisiau dychwelyd i'r swyddfa a chynyddu argaeledd llety argyfwng.

Newid arall oedd canfyddiad o allu awdurdodau lleol i ostwng digartrefedd a ddangosodd 50% o ran cefnogaeth dros: da neu dda iawn ym mis Ionawr, roedd hyn wedi codi i 61%, wrth ail-wneud yr arolwg - cynnydd 11% mewn canfyddiad cadarnhaol.

Adlewyrchwyd y farn gadarnhaol gynyddol hon gan ymatebion i'r cwestiynau am gydweithio o fewn eu hawdurdod lleol i gyflwyno mwy o gartrefi, amlygwyd hyn fel 58% ym mis Ionawr ac roedd wedi codi i 67% erbyn mis Rhagfyr.

Codwyd meysydd eraill yn yr ail arolwg gan gynnwys gweithio gyda gwasanaethau eraill, pwysau gan Lywodraeth Cymru a symud i weithio o gartref, sydd wedi effeithio ar staff ar draws awdurdodau lleol. Dwedodd staff wrthym hefyd am gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a'u pryderon ehangach y gallai staff ddal COVID-19.





Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Cwrdd â'r tîm:



Catherine May

rheolwr Tyfu Tai Cymru, CIH Cymru

E: catherine.may@cih.org T: 02475 312021



Matt Kennedy

rheolwr polisi a materion cyhoeddus, CIH Cymru

E: matthew.kennedy@cih.org T: 02475 312020



Matt Dicks

cyfarwyddwr, CIH Cymru

E: matthew.dicks@cih.org T: 02475 312018



Sharon Dean

cydlynnydd cefnogi cwsmeriaid, CIH Cymru

E: sharon.dean@cih.org T: 02475 312013

Tyfu Tai Cymru -
Gan Fod Tai'n Bwysig